# *GWASANAETH TÂN GOGLEDD CYMRU*

## DATGANIAD AR GYFRIFON 2005-2006

# CYNNWYS


| | RHIF TUD. |
|---|---|
| Rhagair Esboniadol gan y Trysorydd | 1-5 |
| Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon | 6 |
| Datganiad ar Reolaeth Fewnol | 7-9 |
| Datganiad Polisïau Cyfrifyddu | 10-13 |
| Cyfrif Refeniw Cyfunol | 14 |
| Nodiadau'r Cyfrif Refeniw Cyfunol | 15-19 |
| Taflen Fantolen Gyfunol | 20 |
| Nodiadau'r Daflen Fantolen Gyfunol | 21-27 |
| Datganiad cyfanswm y symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn a'r Darpariaethau | 28 |
| Nodiadau'r Datganiad cyfanswm y symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn a'r Darpariaethau | 29 |
| Datganiad Llif Arian | 30 |
| Nodiadau'r Llif Arian | 31 |
| Adroddiad Archwilydd i Aelodau Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 32-33 |

# RHAGAIR ESBONIADOL

1. Datganolwyd y cyfrifoldeb am Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlyC) ar 10 Tachwedd 2004 gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. 2005-2006 oedd y flwyddyn ariannol lawn gyntaf o gyfrifoldeb wedi'i ddatganoli. Yn unol â Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 paratôdd LlyC Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol, sy'n darparu canllawiau gweithredol i'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

Nod y Fframwaith Cenedlaethol yw ceisio ehangu rôl y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru o safbwynt atal, addysgu ac ymwneud a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu gan sicrhau'r un pryd na chyfaddawdir ar eu gallu i ymladd tân. Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru'n paratoi cynlluniau gweithredu blynyddol er mwyn lleihau'r risgiau gyda phwyslais cynyddol ar atal ac addysgu. Yn 2005-06 crëwyd 7 swydd anweithredol yn sgil y Cynllun Rheoli Risg Integredig er mwyn delio'n benodol â diogelwch tân. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio'n weithgar gyda'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, enghraifft o hyn yw eu gwaith yn rheoli'r cynllun ymladdwyr tân ifanc drwy Ogledd Cymru. Wrth edrych i'r dyfodol mae'r Gwasanaeth yn edrych ar ffyrdd i ehangu ei rôl yn y gymuned drwy ddarparu Gorsafoedd Tân Cymunedol a datblygu'r drefn o weithio fel partneriaeth a gwasanaethau brys eraill. Y prosiectau presennol yw datblygu stafell reoli tri-gwasanaeth ac uno'r Adran Ystadau Gwasanaethu Tân ag Adran Rheoli Cyfleusterau Gogledd Cymru.

Mae Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn gyhoeddiad a orchmynnir gan y gyfraith; a'i bwrpas yn bennaf yw darparu gwybodaeth glir ynghylch sefyllfa a pherfformiad ariannol Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005-2006.

2(a). Mae'r datganiadau a'u pwrpas fel a ganlyn:-

(i) **Datganiad Polisïau Cyfrifyddu**
Mae hwn yn gosod yr egwyddorion a'r polisïau y sylfeini'r cyfrifon y Gwasanaeth Tân arnynt.

(ii) **Cyfrif Refeniw Cyfunol**
Mae hwn yn crynhoi gwariant y Gwasanaeth Tân ac yn arddangos sut yr ariannwyd y gwariant.

(iii) **Taflen Fantolen Gyfunol**
Mae'r Taflen Fantolen Gyfunol yn disgrifio sefyllfa ariannol y Gwasanaeth Tân.

(iv) **Datganiad yr holl Symudiadau Wrth Gefn**
Daw'r datganiad hwn â holl enillion a cholledion y Gwasanaeth Tân a gydnabyddir ynghyd, ac amlinellu'r rhai a gydnabyddir a'r rhai na chawsant eu cydnabod yn y Cyfrif Refeniw Cyfunol.

(v) **Datganiad Llif Arian**
Mae'r datganiad cyfunol hwn yn crynhoi'r llif arian mewnol ac allanol a gyfyd o'r trafodion â thrydydd parti i bwrpas refeniw a chyfalaf.

(vi) **Datganiad cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon**

Mae'r rhan hon yn dangos cyfrifoldebau Trysorydd a Chadeirydd yr Awdurdod Tân ynglŷn â'r Datganiad Cyfrifon.

2(b). Yn cefnogi'r Cyfrif Refeniw Cyfunol, y Taflen Fantolen Gyfunol, y Datganiad yr Holl Symudiadau Wrth Gefn a'r Datganiadau Llif Arian, mae nodiadau i roi rhagor o wybodaeth. Mae'r Datganiad ar Gyfrifon yn ateb gofynion Côd Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol ym Mhrydain (2005) a'r Côd Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau (2005) a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFS), a'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

3. **CRYNODEB O'R FLWYDDYN ARIANNOL 2005-2006**

(i) **Gwariant Refeniw 2005-2006**

Cymeradwywyd y gyllideb am y flwyddyn gan Aelodau'r Awdurdod Tân ar £27,951,864. Mae'r Cyfrif Refeniw Cyfunol yn dangos bod y gwariant am y flwyddyn o fewn y swm yma. Yn yr adroddiad i Aelodau fis Mawrth 2006 amcangyfrifid y byddai'r ffigurau terfynol ar gyfer 2005-2006 yn dangos tanwariant o £320,032. Y gwariant gwirioneddol ar gyfer 2005-2006 oedd £27,321,346, tanwariant o £630,518. Mae prif faes tanwariant ar dâl, yn bennaf mewn perthynas â dynion tân a lymp-symiau. Cafwyd incwm ychwanegol hefyd o fuddsoddiadau a ffioedd hyfforddi.

Yn adran 4 y rhagair esboniadol ceir amlinelliad o argymhellion sy'n trafod sut y dylid gwario'r arian sy'n weddill oherwydd tanwariant. Mae'r argymhellion hyn wedi cael eu cynnwys dros dro yn y Datganiad Cyfrifon yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau.

(ii) **Gwariant Cyfalaf 2005-2006**

Yn ystod y flwyddyn gwariodd yr Awdurdod £1,149,738 ar brosiectau cyfalaf fel a ganlyn:-

| | £ |
|---|---|
| **Adeiladau** | |
| Cyfleusterau Hyfforddiant Bae Colwyn | 22,927 |
| Tŷ Hyfforddiant y Rhyl | 51,783 |
| Cyfleusterau Hyfforddiant Benllech | 1,734 |
| Llety Pencadlys | 163,079 |
| Cyfleusterau Hyfforddi Pwllheli | 9,697 |
| Ailfodelu Llandudno | 16,939 |
| Ailfodelu Llanrwst | 147,518 |
| Ailfodelu Johnstown | 59,699 |
| Ailfodelu Flint | 6,377 |
| Ailfodelu Rhyl | 4,050 |
| Mân waith adeiladu | 44,908 |
| Gosodiadau Hydrant | 1,562 |
| **Cerbydau ac Offer** | |
| Tendrau Dŵr | 52,574 |
| Cerbydau Ysgafn | 132,354 |
| Uned Arddangos | 145,713 |
| Offer Arall | 288,824 |
| **CYFANSWM GWARIANT CYFALAF** | **1,149,738** |

Cafwyd gwariant llai nag a ragwelwyd yn rhaglen gyfalaf 2005-2006 oherwydd llithriant yn nifer y prosiectau adeiladu ac oedi'r rhaglen newid

cerbydau, ac yn arbennig y tendrau dŵr. Bydd y cynlluniau hyn sydd werth oddeutu £1.6m, yn cael eu trosglwyddo i 2006-2007.

O dan y Côd Darbodus, gall yr Awdurdod yn unol a pha bynnag ddull ariannu sydd fwyaf cost-effeithiol ariannu'r rhaglen gyfalaf.
Yn 2005-2006 ariannwyd y rhaglen gyfalaf yn bennaf drwy fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Cymerwyd benthyciadau newydd o £2.364m yn ystod y flwyddyn, ac ad-dalwyd £0.964m. Felly cafwyd cynnydd o £1.4m i fenthyciadau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Rhag-fenthyciadau i ariannu rhaglen gyfalaf 2006-2007 yw cyfran o'r arian a fenthyciwyd.

Defnyddiwyd grant llywodraeth i ariannu gweddill y rhaglen gyfalaf.

(iii) **<u>Mantolen 2005-2006</u>**

Pennir bywyd ased i bob adeilad a chânt eu dibrisio ar sail yr oes ddisgwyliedig honno; dangosir hyn yn Nodyn 1yn y Fantolen Gyfunol. Mae'r cynnydd mewn benthyca yn ddibynnol ar nifer o ffactorau; swm y gwariant cyfalaf i'w ariannu trwy fenthyca a'r ddyled fenthyca i'w had-dalu fel rhan o'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf. Dyled fenthyca'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2006 oedd £8.513m, sef cynnydd o £1.4m dros y flwyddyn.

Mae gwerth y Stoc wedi cynyddu o £0.064m. Yn 2004-2005 neilltuwyd arian ar gyfer Darpariaeth Wisg i gyfrif am unrhyw newidiadau o ran stoc yn 2005-2006 oherwydd ystyrid bod lefel y stoc yn artiffisial o uchel gan nad oedd y wisg newydd wedi'i dosbarthu eto. Ond yn 2005-2006 bu cynnydd yng ngwerth y stoc eto. Ar ôl ymchwilio pellach darganfuwyd y cedwid lefelau uwch o Offer Diogelu Personol (PPE) er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n hwylus. Felly nid oes angen y ddarpariaeth ar gyfer newidiadau stoc ond ystyrir y byddai'n ddarbodus gadael y Ddarpariaeth Wisg heb ei newid i'w rhoi yn erbyn y swm o £0.72m yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer y gost arfaethedig o newid yr Offer Diogelu Personol.

Cyflwynwyd FRS17 er mwyn sicrhau bod y datganiadau ariannol yn adlewyrchu am bris teg yr asedau a'r golygiadau'n codi o ymrwymiadau budd-daliadau ymddeol cyflogwr ac unrhyw gyllid cysylltiedig. Daw holl gostau presennol y gwasanaeth o'r Cyfrif Refeniw a chofnodir hynny yn y Fantolen er mwyn adlewyrchu ymrwymiadau pensiwn yr Awdurdod. Yr amcangyfrif o ran ymrwymiadau pensiwn ar gyfer Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2006 oedd £173.142m, cynnydd o £27.53m. Mae'r cynnydd mawr yn rhannol yn sgil y newid yn y gyfradd ddisgownt a ddefnyddir gan yr Actiwari wrth asesu gwerth ymrwymiadau pensiwn. Eglurir hyn ymhellach yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu.

(iv) **<u>Llif Arian</u>**

Caiff yr Awdurdod Tân ei gyllido o ardollau ar Awdurdodau Lleol, derbynnir yr ardollau yn fisol ac fe'u defnyddir i ariannu gwariant.

(v) **<u>Darpariaethau ac Ymrwymiadau</u>**

Mae gan yr Awdurdod Ddarpariaeth o £1,954,566 ar gyfer Rhwymedigaethau Pensiwn er mwyn cyflawni rhwymedigaethau sy'n codi o

wasanaeth blaenorol gweithwyr presennol. Bydd y sefyllfa o ran Pensiynau'n cael ei monitro'n rheolaidd, ac adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Awdurdod ynglŷn â'r mater. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau bwriedig i drefniadau ariannu cynllun pensiwn Diffoddwyr Tân ni fydd angen i'r Awdurdod neilltuo darpariaeth mor fawr ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Oherwydd y newidiadau bwriedig, cymeradwyodd yr Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 19 Rhagfyr 2005 y dylid defnyddio £162,200 o'r Ddarpariaeth Pensiwn i ariannu'r gyllideb ar gyfer 2006-2007.

Rhai o'r darpariaethau eraill a oedd gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2006 oedd Darpariaeth Gwisgoedd o £82,490 a Darpariaeth Reoli o £40,424. Isod, yn Adran 4 y Rhagair Eglurhaol ceir cynigion sy'n argymell y dylid sefydlu darpariaethau pellach gan ddefnyddio'r arian sy'n weddill o danwariant 2005-2006. Ceir manylion pellach ynglŷn â'r darpariaethau presennol ar dudalennau 17,18 a 24.

(vi) **<u>Costau Cyllido Cyfalaf</u>**

Y tâl a godwyd ar gyfrifon refeniw'r gwasanaeth er mwyn adlewyrchu cost asedau sefydlog a ddefnyddiwyd wrth ddarparu'r gwasanaeth oedd £1,613,304. Tâl tybiannol yw hwn, gan fod addasiad credyd yn cael ei wneud i'r Cyfrif Refeniw Rheoli Asedau a'r Gronfa Ariannu Cyfalaf, felly ni effeithir ar y cyfraniadau sydd eu hangen ar gyfer ariannu'r gwasanaeth. Y gost wirioneddol i'r gwasanaeth am ariannu cyfalaf yw: £360,693 am log ar fenthyciad, a Darpariaeth Refeniw Isafswm o £369,549 (gweler nodiadau 1 a 5 ar y Cyfrif Refeniw Cyfunol).

## 4. <u>TANWARIANT 2005-2006</u>

Tanwariant 2005-2006 yw £630,518. Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 19 Rhagfyr 2005, yn rhan o adroddiad y gyllideb ar gyfer 2006-2007, cymeradwyodd yr Aelodau y dylid defnyddio £250,000 o'r tanwariant a ragwelwyd ar gyfer 2005-2006 i ariannu cynnydd yn y gyllideb yn 2006-2007. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n darparu'r swyddogaeth Archwilio Mewnol ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan o gytundeb lefel gwasanaeth. Nid oedd nifer y dyddiau archwilio a ddarparwyd yn 2005-2006 yn ddigon i gyflawni'r holl waith angenrheidiol, yn arbennig y sicrwydd yr oedd ei angen ar gyfer y Datganiad Rheoli Mewnol, sef gofyniad newydd ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2005-2006. Er mwyn sicrhau darpariaeth archwilio briodol mae darpariaeth o £44,984 wedi cael ei sefydlu i ariannu gwaith archwilio ychwanegol, mae hwn wedi ei gynnwys yn ddarpariaeth cyllideb. O ganlyniad i archwiliad TG gan yr Adran TG ar ddiwedd y flwyddyn roedd yn rhaid pwrcasu nifer o drwyddedau ar gyfer 2006-07 a'r gost i'r Awdurdod oedd £40,534, gan nad oedd darpariaeth ar gyfer y trwyddedau yn 2006-07 roedd yn rhaid ariannu'r trwyddedau o'r tanwariant yn 2005-06, mae hwn hefyd wedi cael ei ychwanegu i'r Ddarpariaeth Cyllideb. Cyfanswm y Ddarpariaeth Cyllideb 2006-07 yw £335,518.

Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 27 Mawrth 2006, cymeradwyodd yr Aelodau y dylid defnyddio £70,000 arall o danwariant 2005-2006 i dalu am gostau diswyddo 2006-2007.

Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 13 Mawrth 2006 cymeradwyodd yr Aelodau y dylid cyfuno Adran Stadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Adran Reoli Cyfleusterau Heddlu Gogledd Cymru. Yn yr adroddiad cafwyd amlinelliad o'r

arbedion posibl a'r manteision i'r Gwasanaeth Tân o gael mynediad i gylch ehangach o weithwyr proffesiynol eiddo i reoli'r portffolio o stadau. I sicrhau trosglwyddiad llyfn ystyrir mai doeth fyddai neilltuo £35,000 o danwariant 2005-2006 i Ddarpariaeth Stadau er mwyn talu am gostau sefydlu'r adran. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer taliadau diswyddo ac offer swyddfa newydd.

Ni chafwyd unrhyw ddarpariaeth yng nghyllideb 2006-2007 i dalu am ôl-daliadau'r costau 'rheng i rôl' oherwydd cyfyngiadau ariannu. Ystyrir felly mai doeth fyddai sefydlu darpariaeth o £100,000 i dalu'r costau a allai godi yn 2006-2007 mewn perthynas ag ôl-daliadau.

Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 27 Mawrth 2006, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod Arglwyddi'r Gyfraith wedi cefnogi hawliau diffoddwyr tân wrth gefn i dderbyn yr un amodau gwasanaeth â diffoddwyr tân amser llawn. Rydym yn dal heb wybod beth fydd canlyniadau ariannol y penderfyniad, ond rhagwelir y bydd yn rhaid i'r gwasanaeth dalu rhywfaint o gostau. Gan hyn ystyrir mai doeth fyddai sefydlu darpariaeth o £90,000 ar gyfer y costau hyn.

Nid yw rhai o'r darpariaethau a grëwyd yn 2005-2006 (Cyllideb, Rhengi Rôl, Tâl Cyfartal, Rheoli a Stadau) yn cydymffurfio yn llwyr efo gofynion Safon Adroddiad Ariannol 12 a Datganiad CIPFA o'r Arfer a Argymhellir o safbwynt y diffiniad o 'ddarpariaeth'. Nid yw'r Gorchymyn Cyfuno ar gyfer Awdurdodau Tân yng Nghymru yn caniatáu Awdurdod Tân Cyfun i gadw cronfeydd wrth gefn, sef y diffiniad cywir o'r darpariaethau maent yn cyfeirio atynt uchod. Mae'r Awdurdod Tân wedi delio â hyn mewn modd pragmatig drwy eu ddiffinio fel darpariaethau i gyd-fynd efo arfer yr Awdurdod ers 1996. Mae'r awdurdodau cyfansoddol yn ymwybodol o'r trefniant ac yn fodlon efo hyn.

## 5. GWYBODAETH YCHWANEGOL

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan Drysorydd yr Awdurdod Tân, Bodlondeb, Conwy. Hefyd, mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb, yr hawl statudol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Rhoddir gwybod bod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio trwy'r wasg leol ac ar wefannau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (www.gwastan-gogcymru.org.uk) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (www.conwy.gov.uk).

*K W FINCH* CPFA IRRV

**Trysorydd i'r Awdurdod Tân**

# DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU AR GYFER Y DATGANIAD CYFRIFON

## CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddiad cywir ei faterion ariannol ac i sicrhau fod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddiad y materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd;

- reoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau.

**TYSTYSGRIF Y CADEIRYDD**

**DATGANIAD CYFRIFON 2005/2006**

Cymeradwywyd yng nghyfarfod Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 23 Hydref 2006 o dan oruchwyliaeth Cadeirydd yr Awdurdod Tân.

LLOFNOD: DYDDIAD:23/10/2006

*Cadeirydd, Awdurdod Tân Gogledd Cymru*

## CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am baratoad Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod sydd, yn nhermau Côd Ymarferiad CIPFA/LASAAC ar Gyfrifeg Awdurdod Lleol ym Mhrydain ("y Côd"), yn ofynnol i gyflwyno'n gyfiawn sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2006.

Ym mharatoad y Datganiad Cyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- cael polisïau cyfrifeg addas a ddewiswyd ac yna eu cymhwyso gyda chysondeb;

- gwneud barnau ac amcangyfrifon oedd yn rhesymol a doeth;

- cydymffurfio â'r Côd.

Mae'r Trysorydd hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfamserol;

- cymryd camau rhesymol er atal neu ddarganfod twyll neu weithredoedd afreolaidd eraill.

**TYSTYSGRIF Y TRYSORYDD**

**DATGANIAD CYFRIFON 2004/2005**

Paratowyd Datganiad Cyfrifon yn unol â Rheolau Cyfrifon ac Archwiliad (Cymru) 2005.

ARWYDDWYD :____________________ DYDDIEDIG: 23/10/06

**K W FINCH** CPFA IRRV
*Trysorydd i'r Awdurdod Tân*

# DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL 2005/06

## 1. CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru (''yr Awdurdod'') yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn gweinyddu busnes yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo'n gywir ac yn cael ei ddefnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac effeithiol. Cyflwynwyd Cylchlythyr 18/2002 Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella i Gymru ym mis Ebrill 2002. Yn ôl y cylchlythyr roedd hi'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol foderneiddio ei wasanaethau, cyflawni'r dyletswyddau a roddwyd iddynt o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, a threfnu i sicrhau gwelliant parhaus i'r dull o gyflawni ei swyddogaethau, gan ystyried y cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol yma, mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am sicrhau system gadarn ar gyfer rheoli mewnol sy'n galluogi iddo weithredu ei swyddogaethau'n effeithiol, ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

## 2. PWRPAS Y SYSTEM RHEOLI MEWNOL

Dyluniwyd y system rheoli mewnol i reoli risg hyd at lefel resymol, yn hytrach na chael gwared â phob risg o fethiant, er mwyn cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; gan hynny ni all roi ond sicrwydd rhesymol, yn hytrach na sicrwydd pendant o effeithiolrwydd. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus a ddyluniwyd i ddynodi a blaenoriaethu'r hyn sy'n bygwth llwyddiant polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod. Diben hyn yw gwerthuso pa mor debygol yw hi y gwireddir y risgiau, ac effaith hynny, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r datganiad hwn yn adlewyrchu sefyllfa'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006.

## 3. YR AMGYLCHEDD RHEOLI MEWNOL

Mae Amgylchedd Rheoli Mewnol yr Awdurdod yn cynnwys y systemau, y polisïau, y trefnau a'r gweithrediadau niferus a osodwyd i:

- Sefydlu a monitro i ba raddau y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei amcanion
- Hwyluso'r gwaith o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau
- Sicrhau y cydymffurfir â'r Fframwaith Rheoli, gan gynnwys Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog Contractau, sy'n sail i holl weithrediadau'r cyngor
- Dynodi, asesu a lleihau'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wrth geisio cyflawni ei amcanion
- Sicrhau defnydd effeithlon, economaidd ac effeithiol o adnoddau, ac ymdrechu'n barhaus i wella'r modd y bydd y gwasanaeth yn cyflawni ei swyddogaethau
- Rheoli cyllid ac adrodd yn ôl i'r Awdurdod fel bo'n briodol
- Sicrhau bod systemau digonol a phriodol yn eu lle i gofnodi ac adrodd mewn perthynas â Rheoli Perfformiad.

## 4. ADOLYGIAD EFFEITHIOLRWYDD

Mae'n gyfrifoldeb ar yr Awdurdod i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei system Rheoli Mewnol o leiaf bob blwyddyn. Bydd yr adolygiad effeithiolrwydd yn seiliedig ar waith Archwilwyr Mewnol ac Allanol, a rheolwyr y gwasanaeth sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr Amgylchedd Rheoli Mewnol.

Yn ystod 2005/06, mae'r Awdurdod wedi datblygu a chynnal ei system Rheoli Mewnol drwy gyflawni'r canlynol:

- Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am Bolisi a Chyfeiriad Strategol. Mae'r gwaith parhaus o ddatblygu a chynnal Gwaith Cynllunio Rheoli Risg Integredig yn cael ei ddefnyddio i ganfod gwelliannau yn narpariaeth y gwasanaeth
- Mewn Archwiliad Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) mae trefniadau Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi cael eu hadolygu ar gyfer
    - Adnoddau Dynol
    - Rheoli Asedau
    - Gwaith Partneriaeth
- Mae'r adolygiadau wedi cadarnhau bod Swyddogion yn ymwybodol o bwysigrwydd llunio dogfennau strategaeth sy'n cysylltu'r gweithgareddau hyn gydag amcanion trefniadol.
- Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli mewnol hefyd yn seiliedig ar gynnwys y Llythyr Archwilio Blynyddol gan yr Archwilydd Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru). Yn y llythyr diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2005 nodwyd y canlynol:
    - Bod trefniadau digonol yn eu lle ar gyfer agweddau ariannol Llywodraeth Gorfforaethol
    - Bod yr Awdurdod wedi paratoi Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau yn unol â chyfarwyddyd Cynulliad Cymru
    - Bod yr Awdurdod wedi adolygu ei strwythur datblygu polisïau gan arwain at greu pedwar fforwm polisi cydgysylltiedig: Cysylltiadau Corfforaethol, Datblygu Pobl, Lleihau Risg, Asesiad o Effaith
    - Sefydlwyd Polisi Rheoli Risg Corfforaethol ym mis Medi 2005, a ddynodai'r Fforwm Lleihau Risg yn elfen allweddol mewn cyfundrefn rheoli risg effeithiol. Gwaith y Fforwm hwnnw yw:
        - Dynodi Risgiau
        - Cynnal Arolygon Risg
        - Llunio Rhaglen Flynyddol ar gyfer Lleihau Risg
        - Cynnig cyngor a hyfforddiant ar Reoli Risg
    - Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o drefniadau llywodraethu yr Awdurdod; dengys yr asesiad bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol a bod trefniadau Archwilio Mewnol digonol ac effeithiol yn eu lle
- Casgliad Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2005/06 yw bod lefel y rheolaeth ariannol a'r trefniadau i'w monitro yn dda iawn
- Mae'r Awdurdod wedi ymateb i sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â Rheoli Asedau, drwy ymrwymo i drefniant rheoli cyfleusterau gydag Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a fydd yn rheoli portffolio tir ac adeiladau'r Awdurdod Tân ar ei ran.
- Mae trefniadau Rheoli Perfformiad yn cael eu cyflwyno drwy'r sefydliad. Mae angen y rhain i gynorthwyo'r gwasanaeth i gyflawni ei amcanion i wasanaethu'r Gymuned a dynodi cyfleoedd i wella.

## 5. MATERION RHEOLI MEWNOL PWYSIG

Dengys yr adolygiad effeithiolrwydd a ddangosir yn adran 4 uchod bod y systemau rheoli'r amgylchedd a sefydlwyd yn gweithredu'n effeithiol, ac ni chanfuwyd unrhyw wendidau sylweddol yn yr adolygiad nac ychwaith gan Archwilwyr yr Awdurdod.
Fodd bynnag, yn unol â'r gofyniad i gynnal adolygiad blynyddol o'r systemau Rheoli Mewnol a sefydlwyd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion y gwasanaeth, byddwn yn ceisio sicrhau gwelliannau drwy:

- Ddatblygu proses sy'n fwy cynhwysol ac sy'n galluogi i sicrhau bod y DRhM yn cydweddu â'r holl faterion llywodraethu beunyddiol.

- Ehangu cwmpas yr Adain Archwilio Mewnol i gynnwys systemau nad ydynt yn ymwneud ag arian er mwyn cael mwy o sicrwydd ynglŷn â'r rhain.



Llofnod______________

Prif Swyddog Tân Dyddiad 23/10/2006



Cadeirydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru Dyddiad 23/10/2006

# DATGANIAD POLISÏAU CYFRIFYDDU

## 1. CYFFREDINOL

Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chôd Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol Prydain Fawr 2005, a gyhoeddwyd yn Mai 2006 gan Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifon y Cyhoedd (CIPFA) a hefyd gyda nodiadau cynorthwyol a gyhoeddwyd gan CIPFA ynghylch sut i weithredu Safonau Cyfrifyddu (SSAP'au), a Safonau Adrodd Ariannol (FRS).

## 2. ASEDAU SEFYDLOG

Cyflawnodd Cyngor Gwynedd y prisiad diweddaraf o asedau sefydlog yn 2004-2005. Rhoddwyd gwerth marchnad agored i'r swyddfeydd a chost colli gwerth cyfnewid i'r gorsafoedd tân. I gydymffurfio â'r FRS15 newydd amcangyfrifodd y Prisiwr fywydau yn weddill ar gyfer holl adeiladau'r Awdurdod Tân er mwyn cyfrifo tâl colli gwerth. Cydnabyddir yr asedau eraill ar eu cost hanesyddol ac maent yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

Yn unol â gofynion FRS 11, mae'r Awdurdod yn adolygu, ar ddiwedd pob cyfnod, y gwerth sy'n cael ei gofnodi ar gyfer pob categori o ased sy'n cael ei gynnwys yn y fantolen. Pan fydd rheswm i gredu bod y gwerth wedi newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod, mae'r prisiad yn cael ei addasu'n briodol. Mae cost amhariaeth yn cael ei chodi ar y Cyfrif Refeniw Gwasanaeth pan fydd yn deillio o ddefnyddio buddion economaidd, ac ar y Gyfrif Ailddatgan Asedau Sefydlog mewn achosion eraill.

## 3. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Mae gan yr Awdurdod asedau y gellir eu cydnabod dan Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol DU (GAAP) fel asedau anniriaethol (e.e. trwyddedu meddalwedd).

Amorteiddir asedau anniriaethol ar sail systematig, a hynny ar sail eu hoes economaidd. Adolygir oes economaidd ddefnyddiol asedau anniriaethol yr Awdurdod ar ddiwedd pob cyfnod o adrodd yn ôl ac adolygu pe bai angen.

## 4. COSTAU'R ASEDAU SEFYDLOG O'R REFENIW

Codir tâl cyfalaf ar y cyfrif refeniw ar gyfer yr holl asedau sefydlog a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth. Mae cyfanswm y gost yn cynnwys darpariaeth blynyddol ar gyfer colli gwerth, a chyfradd llog damcaniaethol penodol o 3.5% ar werthoedd net yr asedau.

Seilir cyfanswm y gost ar y cyfalaf a geir. Cymerir i ystyriaeth y bydd yr holl asedau a ddaw i ben wedi cael defnydd ohonynt, yn colli eu gwerth, ac fe'u cyfrifir ar sail llinell syth.

Mae'r Taliadau Cyfalaf a wneir yn mynd i'r Cyfrif Refeniw Rheoli Asedau ac yna tynnir llog allanol gwirioneddol sy'n daladwy a chostau dibrisio o'r Cyfrif hwnnw, gydag unrhyw falans dros ben yn mynd yn ôl i'r Cyfrif Refeniw Cyfunol. O ganlyniad i hyn, mae effaith y Taliadau Cyfalaf ar y cyfrif refeniw yn niwtral.

## 5. COLLI GWERTH

Ystyrir y bydd asedau, heblaw tir, yn colli eu gwerth tra’n cael defnydd ohonynt. Yn ôl yr FRS15 rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer colli gwerth ar holl adeiladau’r Awdurdod Tân. Lle y darparir ar gyfer colli gwerth, fe ddefnyddir y dull llinell syth i ystyried colled mewn gwerth i’r asedau dros y cyfnodau canlynol:-

| | |
|---|---|
| Adeiladau | 15 - 80 mlynedd |
| Strwythurau Mewnol | 5 - 10 mlynedd |
| Cerbydau, Peiriannau ac Offer | 4 - 15 mlynedd |
| Asedau Anniriaethol | 5 – 15 mlynedd |

## 6. Y SYLFAEN ER MWYN DARPARU AR GYFER CASGLU DYLEDION

Mae’r Awdurdod wedi cymeryd benthyciadau tymor hir sydd yn amrywio o ran eu hyd i ariannu asedau sefydlog sydd wedi eu prynu. Codir ar yr elfen sy’n gysylltiedig â chostau trosiannol i'r cyfrif refeniw dros saith mlynedd a chodir y balans o'r gofyniad cyllido cyfalaf a addaswyd i’r cyfrif refeniw fel swm sy’n cyfateb i 4% o’i werth. Ond, mae darpariaeth ychwanegol (gwirfoddol) wedi’i gwneud i adbrynu dyled er mwyn adlewyrchu’r cynnydd mewn asedau tymor byr sy’n awr yn cael eu hariannu drwy fenthyciadau, yn hytrach na phrydlesi gweithredol.
Mae’r ddarpariaeth ychwanegol yn seiliedig ar oes economaidd yr ased a chyfrifir y gost i’r cyfrif refeniw ar y sail honno.

## 7. CRONFEYDD WRTH GEFN A’R BALANS

Nid yw'r gyfundrefn ariannol y mae'r Awdurdod yn gweithredu oddi tani yn caniatáu iddo ddal Arian wrth gefn. Fodd bynnag, caniateir i'r Awdurdod ddal Darpariaethau. Mae darpariaethau'n ymwneud â rhwymedigaethau yr aethpwyd iddynt, mewn achosion lle nad oes modd pennu'n fanwl gywir beth oedd swm neu amseriad y taliad. Mae cost gwariant yn cael ei chodi ar y Cyfrif Refeniw Gwasanaeth yn y flwyddyn pan fydd y ddarpariaeth yn cael ei chreu; mae cost gwariant ar gyfer clirio'r rhwymedigaeth yn cael ei chodi'n uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Mae manylion y Darpariaethau a oedd yn cael eu dal gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2006 wedi eu rhoi yn nodyn 9 ar y Fantolen Gyfunol.

## 8. STOC A’R STORFA

Mae’r Awdurdod yn cymeryd i ystyriaeth y stoc o wisgoedd ffurfiol, rhannau cerbydau, tanwydd ac eitemau gweithredol bychain eraill. Yn unol â’r Côd Ymarfer a’r SSAP 9, rhoddir y gwerth isaf i’r stoc sef y cost gwirioneddol, neu’r gwerth credadwy net.

## 9. COSTAU PENSIWN

Mae’r Awdurdod yn ymwneud â dau gynllun pensiwn gwahanol sydd yn cwrdd â gofynion grwpiau staff gwahanol. Mae’r ddau gynllun yn darparu buddion a ddiffinnir mewn perthynas â thâl a gwasanaeth. Mae’r cynlluniau fel a ganlyn:-

**(i)** **Diffoddwyr Tân Lifrai**

Nid yw'r cynllun hwn yn cael ei ariannu gyda'r cost a dynnir o'r cyfrif refeniw yn cynrychioli cost net y pensiynau a'r buddion eraill ar ôl ystyried cyfraniadau'r staff ar gyfer y flwyddyn.

**(ii)** **Gwasanaethau Llywodraeth Leol a Staff yr Ystafell Reoli**

Mae'r staff hyn yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir o gyfrif yr Awdurdod mewn perthynas â'r staff, yn hafal i'r cyfraniadau a delir i'r cynllun pensiwn a ariannir ar gyfer y staff hyn. Codir costau ychwanegol mewn perthynas â rhai pensiynau arbennig a delir i staff sydd wedi ymddeol heb fod wedi eu hariannu.

Mae'r costau pensiwn hyn wedi eu penderfynu ar sail y cyfraddau cyfrannu cam ar y tro i gwrdd â 100% o atebolrwydd y Gronfa yn unol â rheolau perthnasol y Llywodraeth.

**(iii)** **FRS 17**

Mae FRS 17 yn rhagnodi datgelu'r ymrwymiadau tymor hir yr aethpwyd iddynt o ran costau pensiwn. Mae cyfrifon y Gwasanaeth Tân wedi'u haddasu yn unol â SORP, sy'n golygu nad yw'r newidiadau a wnaed er mwyn gweithredu FRS 17 yn cael unrhyw effaith ar y Cyfraniadau gan yr Awdurdodau Lleol.

Wrth asesu ymrwymiadau o ran budd-daliadau arian ymddeol ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2004-2005 roedd yn ofynnol yn ôl SORP i'r actiwari ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 2.9% gwirioneddol (5.4% mewn gwirionedd). Ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2005-2006, defnyddir cyfradd yn seiliedig ar y gyfradd bresennol o adenillion ar fond uchel mewn gwerth yn cyfateb i gost a hyd ymrwymiadau'r cynllun. Mae'r actiwari wedi nodi bod cyfradd o 2.9% gwirioneddol (4.9% mewn gwirionedd) yn briodol.

## 10. DOSBARTHIAD COSTAU GWEINYDDOL CANOLOG

Darparir y gwasanaethau gweinyddol canolog mwyaf megis Cyllid a Chefnogaeth Gyfreithiol a Gweinyddol gan yr Awdurdodau Lleol eraill. Mae'r costau hyn a chostau gweinyddiaeth ganolog yr Awdurdod Tân wedi eu dyrannu i wasanaethau'r rheng flaen yn unol â Datganiad CIPFA ar Gyfrifyddu Costau Uwchben a'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau.

## 11. DYLEDWYR A CHREDYDWYR

Cyflwynir cyfrifon yr Awdurdod ar sail croniadau yn unol â'r SORP a'r SSAP 2; mae hyn yn golygu fod symiau sydd yn ddyledus i ac oddi wrth yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnwys yn y cyfrif refeniw, p'run a yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu neu beidio yn ystod y flwyddyn. Mae unrhyw groniadau gwariant cyfalaf perthnasol wedi'u gwneud ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae pob gwariant cyfalaf, gan gynnwys croniadau, wedi'i gyllido.

**12. BUDDSODDIADAU**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n rheoli cronfeydd dros ben ar ran yr Awdurdod. Trefnir buddsoddiadau'n uniongyrchol ar gyfer yr Awdurdod, yn benodol mewn cyfrif galw llog uchel, a buddsoddir cronfeydd eraill sy'n weddill ar y farchnad arian fel rhan o weithgaredd rheoli'r trysorlys Conwy. Dangosir trafodion llog ar wahân o fewn Crynodeb y Cyfrif Refeniw. Dangosir y buddsoddiadau yn y Fantolen Gyfunol. Ceir manylion pellach yn Nodyn 11 ar y Fantolen.

**13. PRYDLESI**

Mae'r Awdurdod yn dal gwahanol asedau cyfalaf, cerbydau a rhai eitemau offer yn bennaf dan brydlesau gweithredu. Mae'r rheoliadau cyfrifyddu cyfalaf yn ei gwneud yn ofynnol nad yw asedau sy'n destun prydlesi gweithredu'n cael eu rhestru ar y fantolen, gan nad yr Awdurdod sy'n berchen arnynt.
Mae asedau a geir trwy brydles gyllid yn cael eu dangos ar y fantolen fel Asedau Sefydlog.
Mae cost taliadau prydles blynyddol yn cael ei chodi ar y cyfrifon refeniw gwasanaeth. Mae manylion y prydlesi wedi eu hamlinellu yn nodyn 2 ar y Cyfrif Refeniw Cyfunol.

**14. DERBYNIADAU CYFALAF**

Caiff yr enillion o asedau defnyddiadwy eu dal fel Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy a chânt eu cadw yn y cyfrif Derbyniadau Cyfalaf Anghymwysedig hyd oni chânt eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

**15. TRETH AR WERTH**

Nid yw TAW ond yn cael ei chynnwys mewn cyfrifon incwm a gwariant, boed o natur cyfalaf neu o natur refeniw, i'r graddau nad oes modd ei hadfer.

**16. GRANTIAU**

Mae grantiau refeniw, a'r gwariant a ariannir gan grant, yn cael eu cynnwys fel incwm a gwariant yn y Cyfrif Refeniw. Mae grantiau cyfalaf yn cael eu rhoi yn y Cyfrif Grantiau a Chyfraniadau Gohiriedig ac yn cael eu hamorteiddio dros oes yr Asedau Sefydlog cysylltiedig.

# CYFRIF REFENIW CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2006

| DADANSODDIAD GODDRYCHOL | NODIADAU | *2005/06* *£'000* | *2004/05* *£'000* |
|---|---|---|---|
| Diogelwch Tân Cymunedol – Arolygu ac Ardystio | | 1,229 | 1,118 |
| Diogelwch Tân Cymunedol – Atal ac Addysg | | 2,344 | 2,147 |
| Diffodd Tân – Ymatebion Gweithredol | | 22,756 | 20,407 |
| Diffodd Tân – Cysylltiadau a Chrynhoi | | 2,465 | 2,151 |
| Diffodd Tân – Sicrhau Cyflenwadau Dŵr | | 1,031 | 924 |
| Costau Corfforedig a Chraidd Democrataidd | | 161 | 198 |
| Cost heb ei dosbarthu | | 137 | 145 |
| **GWARIANT GROS** | | **30,123** | **27,090** |
| Incwm – Diogelwch Tân Cymunedol | | -51 | -71 |
| Incwm – Diffodd Tân | | -211 | -507 |
| **CYFANSWM INCWM** | | **-262** | **-578** |
| Trosglwyddiad i'r(o'r) ddarpariaeth ar gyfer offer y Dyfarniad Cyflog | **Nodyn 8** | 0 | -954 |
| Trosglwyddiad i Ddarpariaethau Amrywiol (tanwariant 2005-2006) | **Nodyn 8** | 631 | 0 |
| Trosglwyddiad i'r Ddarpariaeth Cyllideb 2005-2006 | **Nodyn 8** | -781 | 500 |
| Trosglwyddiad i'r(o'r) Ddarpariaeth Gyfrifiaduron | **Nodyn 8** | -35 | -65 |
| Trosglwyddiad i'r Ddarpariaeth Lifrai | **Nodyn 8** | -190 | 190 |
| Trosglwyddiad i'r Ddarpariaeth Rheoli Prosiect | **Nodyn 8** | -60 | 100 |
| Trosglwyddiad i'r(o'r) Ddarpariaeth Cyfalaf | **Nodyn 8** | 83 | 0 |
| Cyfraniad i'r Ddarpariaeth Ddyledion | **Nodyn 8** | 0 | -5 |
| **COST NET Y GWASANAETH** | | **29,509** | **26,278** |
| Llog a dderbyniwyd | | -223 | -153 |
| Cyfrif Refeniw Rheoli Asedau | **Nodyn 1** | -493 | -612 |
| Cost Llog Pensiynau | **Nodyn 4** | 8,161 | 7,153 |
| Elw Disgwyliedig ar Asedau Pensiwn | **Nodyn 4** | -351 | -316 |
| **GWARIANT GWEITHREDU NET** | | **36,603** | **32,350** |
| Neilltuadau i'r Cyfrif Ariannu Cyfalaf – Taliadau a Ohiriwyd | | -283 | 0 |
| Grantiau Llywodraeth a Ohiriwyd | | 11 | 0 |
| Gwariant Cyfalaf wedi'i godi ar y Cyfrif Refeniw | | 0 | 476 |
| Neilltuad o'r Gyfrif Ariannu Cyfalaf | **Nodyn 5** | -401 | -311 |
| Neilltuad ar Gronfa Bensiynau dros ben | **Nodyn 4** | -7,978 | -5,663 |
| **SWM SYDD I'W GODI O'R TRETHI** | | **27,952** | **26,852** |
| **INCWM O'R TRETHI** | **Nodyn 6** | **-27,952** | **-26,852** |
| **YCHWANEGOL AR GYFER Y FLWYDDYN** | | **0** | **0** |

# NODIADAU'R CYFRIF REFENIW CYFUNOL

## 1. CYFRIF REFENIW RHEOLI ASEDAU

Mae'r Cyfrif Refeniw Rheoli Asedau yn cofnodi'r taliadau a godir am ddefnyddio'r asedau ac union gostau'r llog allanol i'r Awdurdod. Dangosir yr hyn sydd yn ychwanegol fel canlyniad yn y Cyfrif Refeniw Cyfunol.

| | ***2005/06 £'000*** | ***2004/05 £'000*** |
|---|---|---|
| **INCWM** | | |
| Taliadau Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw | -1,613 | -1,544 |
| Grantiau Llywodraeth a Ohiriwyd | -11 | 0 |
| **GWARIANT** | | |
| Darpariaeth Colli Gwerth | 770 | 711 |
| Taliadau Llog Allanol | 361 | 221 |
| **YCHWANEGOL I'R CYFRIF REFENIW CYFUNOL** | **-493** | **-612** |

## 2. PRYDLESU

Yr oedd y taliadau prydlesu yn weddill ar 31 Mawrth 2006 yn £2,456,757 (31 Mawrth 2005, £2,859,422), gyda thaliadau prydlesu o £932,792 (2004/05, £1,123,252) yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl brydlesi gweithredu ar gyfer cerbydau ac offer. Gwnaed taliadau prydlesu o £3,746 yn ystod y flwyddyn; pris prynu gwreiddiol y cerbydau oedd £359,048. Mae'r brydles arian wedi cyrraedd y cyfnod rhentu eilaidd, a bydd yn para am oes ddefnyddiol y cerbydau.

| **YMRWYMIADAU PRYDLESU** | ***£'000*** |
|---|---|
| 2006/2007 | 734 |
| 2007/2008 | 497 |
| 2008/2009 | 377 |
| 2009/2010 | 246 |
| 2010/2011 | 214 |
| 2011/2012 | 214 |
| 2012/2013 | 85 |
| 2013/2014 | 76 |
| 2014/2015 | 13 |
| 2015/2016 | 1 |
| **CYFANSWM** | **2,457** |

## 3. GWARIANT AR GYHOEDDUSRWYDD

Dan Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol 1986, mae'n angenrheidiol i'r Awdurdod ddatgelu'r gwariant ar gyhoeddusrwydd a hysbysebu a gyfeirir at y cyhoedd yn gyffredinol neu adrannau penodol o'r cyhoedd. Yn 2005-2006 yr oedd y gwariant hwn yn £93,796.

| **GWARIANT AR GYHOEDDUSRWYDD** | ***2005/06 £'000*** | ***2004/05 £'000*** |
|---|---|---|
| Recriwtio | 57 | 5 |
| Hysbysebion Diogelwch Tân | 37 | 20 |
| **CYFANSWM** | **94** | **25** |

## 4. PENSIYNAU

(i) **Gwasanaethau Llywodraeth Leol a Staff yr Ystafell Reoli**

